Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Mai 2024

Croeso i E-fwletin Cymru Iach ar Waith (CIW)

Mae ein e-fwletin misol yn rhoi diweddariadau rheolaidd gan dîm Cymru Iach ar Waith, newyddion ynghylch iechyd a llesiant yn y gweithle yn ogystal â dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd ar y ffordd.

Y mis yma:

- Recriwtio Pobl ag Euogfarnau: Canllaw i Gyflogwyr
- Sgiliau Gwyrdd a'ch Gweithle
- Cais am Dystiolaeth ar Ddiwygio Nodiadau Ffitrwydd
- Cymru Iach ar Waith Ar Daith
- Dyddiadau Allweddol ar gyfer Mehefin 2024

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon gyda'ch cydweithwyr neu rwydweithiau, ynghyd â'n **manylion cofrestru a rhifynnau blaenorol**.

Recriwtio Pobl ag Euogfarnau: Canllaw i Gyflogwyr

Oeddech chi'n gwybod bod gan tua chwarter poblogaeth y DU euogfarn?

Dyna lawer o bobl â sgiliau, profiad a gwybodaeth werthfawr a all wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas yn ogystal â sefydliadau sy'n cael trafferth recriwtio'r bobl gywir.

Mae "Canllaw i Recriwtio, Cyflogi a Chadw Pobl ag Euogfarnau" **yr Ymddiriedolaeth Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)** (Saesneg yn unig) yn darparu argymhellion ymarferol i gyflogwyr sydd am ehangu eu cronfa dalent a chroesawu pobl ag euogfarnau i'w gweithle.

Drwy gynnig cyfleoedd i'r unigolion hyn, gall sefydliadau eu grymuso i ailadeiladu, ffynnu a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ychwanegol ar recriwtio talent heb ei gyffwrdd ar gyfer busnesau ar **wefan CIPD** (Saesneg yn unig).

Sgiliau Gwyrdd a'ch Gweithle



Y mis hwn mae Cynnal Cymru yn cynnig **cyfres o drafodaethau anffurfiol** (Saesneg yn unig) ar bwysigrwydd sgiliau gwyrdd wrth helpu cyflogwyr i ddiogelu eu gweithlu at y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- "Recriwtio gwyrdd a swydd-ddisgrifiadau cynhwysol" (1pm ar 21 Mai). Yn canolbwyntio ar sut i ailysgrifennu swydd-ddisgrifiadau i fod yn fwy cynhwysol a denu cronfa ehangach o dalent werdd.
- "Gwyrddio pob swydd" (1pm ar 28 Mai). Yn archwilio sut y gall pob swydd mewn cwmni gyfrannu at nodau cynaliadwyedd.

Mae gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys manylion cofrestru, ar gael ar **wefan Cynnal Cymru** (Saesneg yn unig).

Cais am Dystiolaeth ar Ddiwygio Nodiadau Ffitrwydd

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth yn ceisio barn ar sut mae'r broses nodiadau ffitrwydd gyfredol yn gweithio a sut y gall gefnogi gweithwyr â chyflyrau iechyd yn well i ddechrau, aros a llwyddo mewn gwaith.

Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i unigolion gyfrannu mewnwelediadau gwerthfawr, profiadau a safbwyntiau. Mae croeso i bob barn, ond hoffai Llywodraeth y DU glywed yn arbennig gan:

- gyflogwyr
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- cleifion, gofalwyr a'r rhai sy'n cyrchu nodiadau ffitrwydd
- cynrychiolwyr systemau lleol neu bartneriaid systemau lleol (er enghraifft, awdurdod lleol, bwrdd gofal integredig a menter gymdeithasol gymunedol wirfoddol)
- academyddion sydd â diddordeb a sefydliadau rhanddeiliaid

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol, a gwneud eich cyflwyniad, drwy fynd i **wefan GOV.UK** (Saesneg yn unig). Y dyddiad cau yw **08 Gorffennaf 2024**.

Cymru Iach ar Waith Ar Daith

Aeth Cymru Iach ar Waith i Gynhadledd Gweithio'n Dda yng Nghymru yn Venue Cymru yn ddiweddar. Roedd y gynhadledd eleni yn canolbwyntio ar "Dathlu Gwasanaethau Cyflogaeth a Ariennir gan Lywodraeth Cymru." Roedd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o siaradwyr gwadd yn tynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan wasanaethau cyflogaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn y llun mae Jayne, aelod o'n tîm, yn siarad yn y digwyddiad.

Byddwn hefyd yn cyflwyno, ac yn staffio bwrdd, yng **Nghynhadledd Busnesau Bach Ffederasiwn Busnesau Bach Gogledd Cymru** (Saesneg yn unig) ym Mhrifysgol Bangor ar 11 Mehefin. Gobeithio y gwelwn ni chi yno!

Dyddiadau Allweddol

Wythnos Iechyd Dynion (Saesneg yn unig) (10 – 16 Mehefin)

Mae dynion yn aml yn llai tebygol na merched o geisio cymorth meddygol neu siarad am eu pryderon iechyd. Mae Wythnos Iechyd Dynion yn cynnig cyfle i addysgu gweithwyr am faterion iechyd sy'n effeithio ar ddynion.

Thema'r wythnos eleni yw "Dewch i ni siarad am brostadau (a phopeth arall am iechyd dynion!).'' Gall annog dynion i rannu eu straeon helpu hwy yn ogystal ag eraill.

Bydd y Fforwm Iechyd Dynion hefyd yn cynhyrchu llawlyfr newydd, "P For Prostate," sy'n edrych ar bob agwedd ar iechyd y prostad. Bydd gwybodaeth ychwanegol am hyn yn dod yn fuan ar **eu gwefan** (Saesneg yn unig).

Gall cyflogwyr ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar sut i gefnogi iechyd a llesiant eu gweithwyr ar **wefan HWW**.

Diwrnod Aer Glân (Saesneg yn unig) (20 Mehefin)

Thema'r Diwrnod Aer Glân eleni yw "Glanhewch ein hawyr i ofalu am eich meddwl."

Gall busnesau chwarae rhan fawr wrth godi ymwybyddiaeth o'r angen am aer glân, yn ogystal â chymryd camau i wella ansawdd aer yn eu hystâd ac o'i chwmpas, o fewn eu model busnes a'u cadwyni cyflenwi, ynghyd â lliniaru'r effeithiau ar staff, cwsmeriaid a chymunedau. I gynorthwyo hyn, mae Global Action Plan wedi cynhyrchu nifer o adnoddau ar gyfer busnesau.

Mae gwybodaeth ychwanegol hefyd ar gael ar dudalennau "Cynaliadwyedd Amgylcheddol" **gwefan HWW**.

Mae dolenni i ystod o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd hefyd ar gael trwy'r **wefan Cymru Iach ar Waith**.

Cymru Iach Ar Waith

Healthy Working Wales | Floor 5, No.2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff, CF10 4BZ United Kingdom

Unsubscribe communications.team@wales.nhs.uk

Update Profile |Constant Contact Data Notice

Sent byworkplacehealth@communications.wales.nhs.ukpowered by

Constant Contact

Try email marketing for free today!